OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 507 (Cy. 42)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Cynghorau Iechyd Cymuned (Sefydlu, Trosglwyddo Swyddogaethau a Diddymu) (Cymru) (Diwygio) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *3 Mawrth 2015* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *6 Mawrthl 2015* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 182(2) a (3) a 203(9) a (10)(a) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), ac Atodlen 10 i'r Ddeddf honno, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynghorau Iechyd Cymuned (Sefydlu, Trosglwyddo Swyddogaethau a Diddymu) (Cymru) (Diwygio) 2015 a daw i rym ar 1 Ebrill 2015.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "prif Orchymyn" ("*principal Order*") yw Gorchymyn Cynghorau Iechyd Cymuned (Sefydlu, Trosglwyddo Swyddogaethau a Diddymu) (Cymru) 2010(**2**).

**Diwygio erthygl 2 o'r prif Orchymyn**

**2.** Yn erthygl 2 (dehongli) o'r prif Orchymyn—

(a) yn lle'r diffiniad o "ardal CyngorIechyd Cymuned" ("*CommunityHealthCouncilarea*") rhodder—

> "ystyr "ardal Cyngor Iechyd Cymuned" ("*Community Health Council area*") yw'r ardal o Gymru y sefydlir Cyngor Iechyd Cymuned ar ei chyfer o dan erthyglau 3 a 3A o'r Gorchymyn hwn;"; a

(b) hepgorer diffiniad "y Cynghorau sy'n parhau" ("*the continued Councils*").

(**1**) 2006 p. 42.
(**2**) O.S. 2010/289 (Cy. 38).

**Sefydlu Cyngor Iechyd Cymuned Powys**

**3.** Ar ôl erthygl 3 (sefydlu cynghorau iechyd cymuned) o'r prif Orchymyn mewnosoder—

"**Sefydlu Cyngor Iechyd Cymuned Powys**

**3A.** Sefydlir Cyngor Iechyd Cymuned Powys yn effeithiol o 1 Ebrill 2015."

**Diwygio erthygl 4 o'r prif Orchymyn**

**4.** Yn erthygl 4(1) (ardaloedd cynghorau iechyd cymuned) o'r prif Orchymyn, ar ôl "ngholofn 2 o Atodlen 1" mewnosoder "a cholofn 2 o Atodlen 1A".

**Swyddogaethau Cyngor Iechyd Cymuned Powys**

**5.** Ar ôl erthygl 5 (swyddogaethau'r cynghorau newydd) o'r prif Orchymyn mewnosoder—

"**Swyddogaethau Cyngor Iechyd Cymuned Powys**

**5A.** Dyma swyddogaethau Cyngor Iechyd Cymuned Powys—

(i) yr hyn a osodir ym mharagraff 1(a) o Atodlen 10 i'r Ddeddf;

(ii) yr hyn a osodir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau a wneir yn unol â pharagraff 2 o Atodlen 10 i'r Ddeddf; a

(iii) byddant yn cynnwys swyddogaethau cyn Gyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a chyn Gyngor Iechyd Cymuned Maldwyn a drosglwyddir iddo gan erthygl 6A."

**Trosglwyddo swyddogaethau, hawliau a rhwymedigaethau i Gyngor Iechyd Cymuned Powys**

**6.** Ar ôl erthygl 6 (trosglwyddo swyddogaethau, hawliau a rhwymedigaethau i'r cynghorau newydd) o'r prif Orchymyn mewnosoder—

"**Trosglwyddo swyddogaethau, hawliau a rhwymedigaethau i Gyngor Iechyd Cymuned Powys**

**6A.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i unrhyw swyddogaethau neu hawliau oedd yn arferadwy gan gyn Gyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a chyn Gyngor Iechyd Cymuned Maldwyn neu i rwymedigaethau oedd yn orfodadwy yn eu herbyn ar 1 Ebrill 2015 neu cyn hynny.

(2) Mae gan Gyngor Iechyd Cymuned Powys y buddiant o unrhyw swyddogaeth oedd yn arferadwy neu unrhyw hawl oedd yn orfodadwy gan gyn Gyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a chyn Gyngor Iechyd Cymuned Maldwyn ar 1 Ebrill 2015 neu cyn hynny.

(3) Rhaid i Gyngor Cymuned Iechyd Powys gymryd cyfrifoldeb dros unrhyw rwymedigaeth oedd yn orfodadwy yn erbyn cyn Gyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a chyn Gyngor Iechyd Cymuned Maldwyn ar 1 Ebrill 2015 neu cyn hynny."

**Darparu Adroddiadau a Chyfrifon cyn Gyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a chyn Gyngor Iechyd Cymuned Maldwyn**

**7.** Ar ôl erthygl 7 (darparu adroddiadau a chyfrifon cyn gynghorau) o'r prif Orchymyn mewnosoder—

"**Darparu Adroddiadau a Chyfrifon cyn Gyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a chyn Gyngor Iechyd Cymuned Maldwyn**

**7A.**—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i ddarparu adroddiadau a chyfrifon ar ran cyn Gyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a chyn Gyngor Iechyd Cymuned Maldwyn am y cyfnod o 1 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2015.

(2) Rhaid i Gyngor Iechyd Cymuned Powys gymryd y camau hynny sy'n angenrheidiol i sicrhau bod adroddiadau a chyfrifon cyn Gyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a chyn Gyngor Iechyd Cymuned Maldwyn am y cyfnod 1 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2015 yn cael eu darparu yn unol â rheoliadau 25 a 41 o'r Rheoliadau."

**Darparu ar gyfer parhad wrth arfer swyddogaethau gan Gyngor Iechyd Cymuned Powys**

**8.** Ar ôl erthygl 8 (darparu ar gyfer parhad wrth arfer swyddogaethau) o'r prif Orchymyn mewnosoder—

"**Darparu ar gyfer parhad wrth arfer swyddogaethau gan Gyngor Iechyd Cymuned Powys**

**8A.** Bydd unrhyw beth a wnaed gan gyn Gyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a chyn Gyngor Iechyd Cymuned Maldwyn neu mewn perthynas â hwynt wrth arfer swyddogaeth neu mewn cysylltiad â'r swyddogaeth honno sydd yn rhinwedd erthygl 6A o'r Gorchymyn hwn yn dod yn swyddogaeth i Gyngor Iechyd Cymuned Powys yn cael effaith, i'r graddau y mae hynny'n angenrheidiol i barhau ei effaith ar 1 Ebrill 2015 ac wedi hynny, megis petai wedi ei wneud gan Gyngor Iechyd Cymuned Powys neu mewn perthynas ag ef."

**Diddymiadau**

**9.** Ar ôl erthygl 9 (diddymiadau) o'r prif Orchymyn mewnosoder—

"**Diddymu Cyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a Chyngor Iechyd Cymuned Maldwyn**

**9A.** Diddymir Cyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a Chyngor Iechyd Cymuned Maldwyn gydag effaith o 1 Ebrill 2015."

**Diwygio erthygl 10 o'r prif Orchymyn**

**10.** Hepgorer erthygl 10 (Cyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a Chyngor Iechyd Cymuned Maldwyn i barhau mewn bodolaeth) o'r prif Orchymyn.

**Diwygio erthygl 11 o'r prif Orchymyn**

**11.** Hepgorer erthygl 11 (swyddogaethau'r cynghorau sy'n parhau) o'r prif Orchymyn.

**Ardal Bwrdd Iechyd Lleol Cyngor Iechyd Cymuned Powys**

**12.** Ar ôl Atodlen 1 i'r prif Orchymyn mewnosoder—

## "ATODLEN 1A

Erthyglau 3A a 4

Yr Ardal Bwrdd Iechyd Lleol y sefydlir Cyngor Iechyd Cymuned Powys ar ei Chyfer

| *Colofn 1* | | *Colofn 2* |
|---|---|---|
| *Enw'r Cyngor Iechyd Cymuned a sefydlir o dan erthygl 3A* | | *Ardal Bwrdd Iechyd Lleol y sefydlir y Cyngor Iechyd Cymuned ar ei chyfer* |
| 1 | Cyngor Iechyd Cymuned Powys | Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys" |

**Diwygio Atodlen 3 i'r prif Orchymyn**

**13.** Hepgorer Atodlen 3 (ardaloedd o fewn prif ardal llywodraeth leol Powys (yr ardal y sefydlir Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys ar ei chyfer) y sefydlir y Cynghorau sy'n parhau ar eu cyfer ac y maent yn arfer eu swyddogaethau drostynt) i'r prif Orchymyn.

*Mark Drakeford*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

3 Mawrth 2015

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynghorau Iechyd Cymuned (Sefydlu, Trosglwyddo Swyddogaethau a Diddymu) (Cymru) 2010 ("y prif Orchymyn").

Mae erthygl 3 yn mewnosod erthygl 3A yn y prif Orchymyn er mwyn darparu ar gyfer sefydlu Cyngor Iechyd Cymuned Powys.

Mae erthygl 4 yn diwygio erthygl 4 o'r prif Orchymyn i gyfeirio at Atodlen 1A sy'n pennu ardal Cyngor Iechyd Cymuned Powys.

Mae erthygl 5 yn mewnosod erthygl 5A yn y prif Orchymyn sy'n pennu swyddogaethau Cyngor Iechyd Cymuned Powys.

Mae erthygl 6 yn mewnosod erthygl 6A yn y prif Orchymyn sy'n darparu ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau, hawliau a rhwymedigaethau Cyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a Chyngor Iechyd Cymuned Maldwyn i Gyngor Iechyd Cymuned Powys.

Mae erthygl 7 yn mewnosod erthygl 7A yn y prif Orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Iechyd Cymuned Powys gymryd y camau hynny sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau y darperir adroddiadau a chyfrifon Cyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a Chyngor Iechyd Cymuned Maldwyn ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2015.

Mae erthygl 8 yn mewnosod erthygl 8A yn y prif Orchymyn sy'n darparu i Gyngor Iechyd Cymuned Powys barhau swyddogaethau Cyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a Chyngor Iechyd Cymuned Maldwyn.

Mae erthygl 9 yn mewnosod erthygl 9A yn y prif Orchymyn sy'n diddymu Cyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed a Chyngor Iechyd Cymuned Maldwyn.

Mae erthyglau 10, 11 a 13 yn hepgor erthyglau 10 ac 11 o'r prif Orchymyn ac Atodlen 3 iddo.

Mae erthygl 12 yn mewnosod Atodlen 1A yn y prif Orchymyn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, mae asesiad effaith rheoleiddiol wedi ei lunio o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Mae copi ar gael gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.